

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales**  
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language**  
**and Communications Committee**  
**Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor / Priorities for the Committee**  
**CWLC(5) PFC09: Ymateb gan Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**  
**/ Evidence from Sarah Rochira, Older People's Commissioner for Wales**

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn<sup>1</sup>. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn eang ac mae'r holl faterion yn effeithio ar bobl hŷn drwy Gymru, ond tynnaf eich sylw at y materion penodol hyn i chi eu hystyried:

**Mynediad pobl hŷn i'r celfyddydau a safleoedd/digwyddiadau diwylliannol yng Nghymru**

Tra bod rhai pobl yn gallu cael mynediad i'r celfyddydau a safleoedd/digwyddiadau diwylliannol yng Nghymru, mae eraill yn methu am nifer o resymau, gan gynnwys tlodi ac incwm cyfyngedig (mae ymchwil diweddar gan Sefydliad Bevan yn awgrymu bod tlodi ymysg pobl hŷn ar gynnydd<sup>2</sup>), diffyg ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael (yn arbennig mewn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru), hygrychedd (diffyg cludiant cyhoeddus a chydabyddiaeth o'r angen am ganolfannau sy'n ystyriol o oed a dementia) a chostau cymryd rhan. Beth ellir ei wneud i annog nifer cynyddol o bobl hŷn i gael mynediad i'r cyfleoedd hyn drwy Gymru? Mae mynediad i gyfleoedd o'r fath yn llesol i'r unigolyn, yn dda i'r safleoedd/digwyddiadau a hefyd mae'n cyfrannu tuag at nod Llywodraeth Cymru o fod yn wlad sy'n ystyriol o ddementia a chyflawni ei hymrwymadau yn ei Strategaeth Pobl Hŷn Rhan Tri h.y. cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol<sup>3</sup>. Mae sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael mynediad i'r celfyddydau a safleoedd/digwyddiadau diwylliannol yn ategu'r rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru, yn arbennig y nod i sefydlu cymunedau sy'n ystyriol o oed a dementia drwy Gymru<sup>4</sup>. Bydd Ymchwiliad hefyd yn gyfle i ddysgu yn sgil arfer da mewn mannau eraill e.e. Amgueddfeydd sy'n ystyriol o ddementia yn Lerpwl a Sporting Memories yn yr Alban<sup>5 6</sup>.

**Canfyddiad/portread o bobl hŷn yn y cyfryngau**

Fel y pwysleisiwyd yn fy ymgyrch 'Na i Oedraniaeth'<sup>7</sup>, mae pobl hŷn yn aml yn cael eu portreadu yn y cyfryngau fel pobl fregus a diamddiffyn, fel pobl

<sup>1</sup> <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=217>

<sup>2</sup> <https://www.bevanfoundation.org/commentary/wales-poor-still-us/>

<sup>3</sup> <http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/strategies/older/?skip=1&lang=cy>

<sup>4</sup> <http://www.ageingwellinwales.com/wl/home>

<sup>5</sup> <http://www.liverpoolmuseums.org.uk/learning/projects/house-of-memories/>

<sup>6</sup> <http://www.sportingmemoriesnetwork.com/d1079/scotland>

<sup>7</sup> <http://www.olderpeoplewales.com/wl/ageism/say-no-to-ageism-overview.aspx>

ddiwerth ac yn dreth ar adnoddau. Mae iaith negyddol a dirmygus beunyddiol am bobl hŷn yn golygu bod cymdeithas yn ffurfio barn gref wedi ei chamarwain am bobl hŷn, un sy'n aml wedi ei hybu gan y cyfryngau. Trwy wirfoddoli, gofalu, gweithio a ffyrdd eraill, mae pobl hŷn yn cyfrannu £1bn tuag at economi Cymru bob blwyddyn, ond mae'r cyfraniad sylweddol hwn yn aml yn cael ei ddiystyru neu ei anwybyddu, sy'n golygu bod y ddelwedd negyddol a bortreadir o bobl hŷn yn parhau.

Mae'n bryd herio'r mythau, y stereoteipiau a'r camganfyddiadau am bobl hŷn, ac yn hytrach dathlu eu hamrywiaeth a'u cyfraniad sylweddol tuag at yr economi a chymunedau ar draws Cymru. Oes gennym ni gyfryngau sy'n gwahaniaethu ar sail oed yng Nghymru? Ydi'r penawdau negyddol ac ymfflamychol mewn papurau newydd a manau eraill yn helpu i hybu'r ddelwedd niweidiol hon fod pobl hŷn yn fwrn ar gymdeithas? Ydi'r penawdau hyn yn dylanwadu ar y ffordd mae ein cymdeithas sifil ehangach yn ystyried pobl hŷn, ac ydyn nhw'n effeithio ar y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn delio ag anghenion pobl hŷn, h.y. trwy brism iechyd a gofal cymdeithasol yn unig ac fel un grŵp unffurf sy'n dibynnu ar wasanaethau? Mae'r newid mewn agweddau a dathlu amrywiaeth pobl hŷn a'u cyfraniad yn ategu'r rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru a fy null sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn seiliedig ar asedau tuag at bobl hŷn yng Nghymru, yn ogystal â'r nodau lles cenedlaethol yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Gobeithio y bydd y materion hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i'r Pwyllgor. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi ac eraill ar y materion hyn yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch mae croeso i chi gysylltu â mi.